nodiadau'r athrawon

# Chwarae fferm - Sefyllfaoedd

Awgrymiadau ar gyfer trefnu'r fferm fyd-bach gyda rhai `argyfyngau', neu ar gyfer sefyllfaoedd chwarae rôl.

- Rhowch ddarnau bach o bapur wedi'i wasgu at ei gilydd a mân bethau eraill fel clip papur, balŵn, clawr potel, etc, yn y cae lle mae'r gwartheg, i awgrymu bod sbwriel wedi'i ollwng yn y cae. Efallai y bydd yn anafu'r gwartheg.
- Gwahanwch rannau o'r ffens a rhoi car tegan yn agos atynt i awgrymu bod twll yn y ffens wrth y ffordd - gallai'r anifeiliaid fynd trwyddo a chael eu hanafu ar y ffordd.
- Rhowch oen mewn cae ar wahân, i awgrymu ei fod wedi crwydro oddi wrth ei fam a'i fod ar goll.
- Rhowch lwynog tegan ymysg yr ieir i awgrymu nad oedd yr ieir wedi cael eu cau yn eu cwt y noson flaenorol.
- Rhowch haul mawr melyn ar y wal wrth ymyl y fferm a rhowch y moch yn y cae gyda chafn dŵr gwag. Mae'n ddiwrnod heulog a'r moch allan mewn cae heb gysgod na dŵr.
- Rhowch symbol iâ glas ar y wal wrth ymyl y fferm ac yn lle dŵr rhowch giwb o iâ yn y cafn dŵr i awgrymu ei bod yn ddiwrnod oer iawn a bod y dŵr yng nghafn dŵr y defaid wedi rhewi.
- Rhowch ychydig o linyn o amgylch coes un o'r anifeiliaid, gyda pheth ohono'n llusgo y tu ôl, i awgrymu bod yr anifail wedi cael ei ddal yn rhywbeth ac y gallai fod wedi ei anafu.


Gellir llungopïo